# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

**RHAN 9**

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

**PENNOD 13**

CEFNU

(MAE'R BENNOD HON YN GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH)

**220 Meddiannu anheddau y cefnwyd arnynt**

(1) Os yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth perthnasol yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, caiff y landlord adennill meddiant o'r annedd yn unol â'r adran hon.

(2) Mae contract meddiannaeth yn berthnasol os yw'n un o delerau'r contract (ym mha fodd bynnag y'i mynegir) bod yn rhaid i ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.

(3) Rhaid i'r landlord roi hysbysiad i ddeiliad y contract—

(a) yn datgan bod y landlord yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract hysbysu'r landlord mewn ysgrifen cyn diwedd y cyfnod rhybuddio os nad yw deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, ac

(c) yn hysbysu deiliad y contract o fwriad y landlord i derfynu'r contract os yw'r landlord, ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio, yn fodlon bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

(4) Yn ystod y cyfnod rhybuddio rhaid i'r landlord wneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni ei hun bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio caiff y landlord, os yw'n fodlon fel y disgrifir yn is-adran (4), derfynu'r contract drwy roi hysbysiad i ddeiliad y contract.

(6) Daw'r contract i ben pan roddir yr hysbysiad o dan is-adran (5) i ddeiliad y contract.

(7) Os terfynir contract meddiannaeth o dan yr adran hon caiff y landlord adennill meddiant o'r annedd heb achos llys.

(8) Y cyfnod rhybuddio yw'r cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (3) i ddeiliad y contract.

(9) Rhaid i'r landlord roi copi o hysbysiad o dan is-adran (3) a chopi o hysbysiad o dan is-adran (5) i unrhyw letywr neu isddeiliad i ddeiliad y contract.

## 221 Gwaredu eiddo

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn cysylltiad â diogelu eiddo (ac eithrio eiddo'r landlord) sydd yn yr annedd pan ddaw contract i ben o dan adran 220, a'i draddodi i'w berchennog.

(2) Caiff y rheoliadau, ymysg pethau eraill—
- (a) darparu bod traddodi eiddo yn amodol ar dalu treuliau yr aed iddynt gan y landlord;
- (b) awdurdodi gwaredu eiddo ar ôl cyfnod rhagnodedig;
- (c) caniatáu i'r landlord gymhwyso unrhyw enillion o werthi eiddo tuag at dalu'r treuliau yr aed iddynt gan y landlord a'r symiau sy'n ddyledus gan ddeiliad y contract o dan y contract.

## 222 Rhwymedïau deiliad y contract

(1) Caiff deiliad contract, cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 220(5), wneud cais i'r llys ar un neu ragor o'r seiliau yn is-adran (2) am ddatganiad neu orchymyn o dan is-adran (3).

(2) Y seiliau yw—
- (a) bod y landlord wedi methu â rhoi hysbysiad o dan adran 220(3) neu wedi methu â gwneud yr ymholiadau sy'n ofynnol yn ôl adran 220(4);
- (b) nad oedd deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd a bod rheswm da dros ei fethiant i ymateb (neu i ymateb yn ddigonol) i'r hysbysiad o dan adran 220(3);
- (c) nad oedd gan y landlord, pan roddodd yr hysbysiad i ddeiliad y contract o dan adran 220(5), seiliau rhesymol dros fod yn fodlon bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

(3) Os yw'r llys yn canfod bod un neu ragor o'r seiliau wedi ei phrofi neu eu profi, caiff—
- (a) gwneud datganiad nad oes unrhyw effaith i'r hysbysiad o dan adran 220(5) a bod y contract meddiannaeth yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r annedd,
- (b) gorchymyn i'r landlord ddarparu llety arall addas i ddeiliad y contract, neu
- (c) gwneud unrhyw orchymyn arall sy'n briodol yn ei farn.

(4) Os yw'r llys yn gwneud y naill neu'r llall o'r pethau a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) o is-adran (3), caiff wneud unrhyw orchymyn arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

(5) Mae addasrwydd llety arall i'w benderfynu gan roi sylw i Atodlen 11.

### 223 Pŵer i amrywio cyfnodau yn ymwneud â chefnu

Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) diwygio adran 220(8) drwy roi cyfnod gwahanol yn lle'r cyfnod y cyfeirir ato ar y pryd;

(b) diwygio adran 222(1) drwy roi cyfnod gwahanol yn lle'r cyfnod y cyfeirir ato ar y pryd.

### 224 Hawliau mynediad

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth perthnasol yn credu'n rhesymol bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

(2) Caiff y landlord fynd i'r annedd unrhyw bryd er mwyn ei gwneud yn ddiogel neu i ddiogelu ei chynnwys ac unrhyw osodion neu ffitiadau, a chaiff ddefnyddio grym rhesymol i wneud hynny.

(3) Mae contract meddiannaeth yn berthnasol os yw'n un o delerau'r contract (ym mha fodd bynnag y'i mynegir) bod rhaid i ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.